
# Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

*Strategaeth Glinigol a Gwyddonol*

(2025-2030)




GIG CYMRU NHS WALES

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust

## Croeso i'n Strategaeth Glinigol a Gwyddonol

Nod ein Hymddiriedolaeth ydy darparu gofal a gwasanaethau o ansawdd uchel, diogel ac effeithiol, sy'n canolbwyntio ar y person, ym meysydd canser, gwaed a thrawsblaniadau. Rydym yn gwneud ein gorau glas i fod ar flaen y gad o ran darparu ymchwil, datblygu ac arloesi, trwy gyflawni newid trawsnewidiol, a thrwy ddarparu gwasanaethau o safon sydd wedi'u seilio ar wyddoniaeth ac sydd yn cael eu harwain gan glinigwyr, gyda diogelwch a phrofiadau ein cleifion a'n rhoddwyr mewn golwg.

Gan adeiladu ar ein cryfderau a'n cyflawniadau fel gwasanaeth canser trydyddol arbenigol a gwasanaeth gwaed cenedlaethol sy'n cefnogi gwasanaethau trawsblannu, rhaid inni barhau i gydweithio gyda byrddau iechyd, sefydliadau academaidd a'r byd diwydiant. Rydym yn cydnabod yr angen i ddysgu o brofiadau bywyd, a mynd i'r afael â'r meysydd hynny sydd angen eu gwella. Byddwn yn gwneud hyn drwy wneud y mwyaf o gyfleoedd i weithio'n wahanol, a thrwy harneisio ymchwil, datblygu ac arloesi ac ar yr un pryd, creu gwasanaethau gwydn, ymatebol a chynaliadwy sy'n ateb anghenion ein poblogaeth.

Mae arweinyddiaeth a llywodraethu clinigol a gwyddonol gref yn bwysig dros ben. Mae ein gweithlu clinigol a gwyddonol arbenigol ac ymroddedig yn darparu'r gofal gorau posibl i'n cleifion a'n rhoddwyr, ac yn sicrhau



bod ansawdd a datblygiad parhaus ein gwasanaethau yn dal i fod yn flaenllaw yn ein prosesau gwneud penderfyniadau.

Mae ein Hymddiriedolaeth yn sefydliad unigryw ac arbenigol iawn o fewn system gofal iechyd Cymru. Mae gennym yr arbenigedd a'r sgiliau gwyddonol a chlinigol i ddatblygu ymchwil ac arloesi, gweithredu a lledaenu arloesiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a thechnolegau newydd ar sail Cymru gyfan, ac i hyrwyddo'r ddarpariaeth gofal i gleifion a rhoddwyr.

**Yn 2023, lansiwyd strategaeth gyffredinol yr Ymddiriedolaeth "Cyrchfan 2033", sy'n nodi gweledigaeth, nodau strategol ac amcanion y sefydliad, gan gynnwys sawl rhaglen drawsnewid hynod gymhleth.**

Mae'r Strategaeth Glinigol a Gwyddonol hon yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein strategaethau adrannol a strategaethau'r Ymddiriedolaeth, drwy osod y cyfeiriad clinigol a gwyddonol ar gyfer ein gwasanaethau dros y 5 mlynedd nesaf. Trwy sganio'r gorwel, rydym yn deall y tueddiadau, yr arloesiadau a'r datblygiadau newydd mewn cyffuriau a thechnolegau, sydd â'r potensial i drawsnewid gofal a gwella canlyniadau a phrofiad i'n cleifion a'n rhoddwyr. Mae'r mewnwelediad hwn wedi llywio ein strategaeth glinigol a gwyddonol, a bydd yn sicrhau bod y sefydliad yn gallu paratoi ar gyfer darparu modelau gwasanaeth, triniaethau a thechnolegau arloesol newydd yn y dyfodol.

Mae'r strategaeth wedi cael ei hysgrifennu gan, ac ar gyfer ein gweithlu clinigol a gwyddonol. Rydym yn defnyddio dull amlochrog o ymgysylltu â'n cymunedau clinigol a gwyddonol, ein partneriaid, a'n rhanddeiliaid, ac yn galw ar eu cyfoeth o wybodaeth, arbenigedd, ac ar eu syniadau blaengar i lywio ein gweledigaeth gyffredin, ein nodau strategol a'n hamcanion.

I gydnabod y cyflymder y mae'r dirwedd gofal iechyd yn newid, mae ein Hymddiriedolaeth wedi ymrwymo i aros ar y blaen, darparu gofal newydd ac arloesol, ac ymateb i alwadau cynyddol ar ein gwasanaethau clinigol a gwyddonol. Gan fod y dirwedd yn newid yn gyflym, bydd y strategaeth pum mlynedd hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, i sicrhau ein bod yn parhau i alinio â'r cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol, ac yn gallu parhau i fodloni anghenion cyfnewidiol ein gweithlu a'r boblogaeth.



## Pam mae gennym ni Strategaeth Glinigol a Gwyddonol?

**Mae ein Hymddiriedolaeth angen proses i lywio'r agenda Glinigol a Gwyddonol, ac i gynghori ar y broses o flaenoriaethu a gwneud penderfyniadau.**

Bydd y strategaeth hon yn cryfhau ein safle fel Ymddiriedolaeth o fewn y cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol, drwy fynegi cyfeiriad strategol clinigol a gwyddonol y sefydliad dros y pum mlynedd nesaf yn glir, a fydd yn arwain y gwaith o ddatblygu ein gwasanaethau clinigol a gwyddonol.

### Bydd ein Strategaeth Glinigol a Gwyddonol yn cyflawni'r canlynol:

- Hyrwyddo ein gweledigaeth a rennir a'n nodau strategol dros y 5 mlynedd nesaf yn seiliedig ar ein blaenoriaethau
- Atgyfnerthu ein rôl fel arweinwyr systemau
- Darparu gofal a yrrir gan ddata, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac a arweinir yn glinigol, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- Llywio cynllunio strategol a chyflawniad gweithredol
- Hysbysu esblygiad ein gwasanaethau clinigol a gwyddonol
- Trwy Sganio'r Gorwel, sicrhau bod yr ymddiriedolaeth yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil a datblygiadau newydd
- Cryfhau'r arweinyddiaeth glinigol a gwyddonol a grymuso'r gweithlu
- Datblygu'r agenda glinigol a gwyddonol, arloesi a newid trawsnewidiol



# Ein Hysgogwyr a'n Heriau

**Mae ein Strategaeth Glinigol a Gwyddonol wedi'i datblygu o fewn cyd-destun ysgogwyr lleol a chenedlaethol allweddol, a heriau presennol a'r rhai a ragwelir. Fel pob darparwr GIG Cymru, mae ein sefydliad yn wynebu sawl her allweddol.**

## Ysgogwyr Lleol


- **Strategaeth yr Ymddiriedolaeth 'Cyrchfan 2033', Felindre -Canser a'r Gymraeg**
- Profiad a chanlyniadau cleifion a rhoddwyr
- Newidiadau demograffig ac anghenion y boblogaeth
- Galw cynyddol a chymhlethdod
- Cleifion sy'n byw'n hirach gyda Chanser
- Blaenoriaethau comisiynu Byrddau Iechyd
- Angen lleihau amrywiad, annhegwch ac anghydraddoldebau
- Datblygiadau cyflym mewn triniaethau canser ac opsiynau ar gyfer darparu gofal
- Datblygiadau newydd mewn gwyddoniaeth a thechnoleg

## Ysgogwyr Cenedlaethol

- Cymru Iachach (2018)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (2020)
- Fframwaith Clinigol Cenedlaethol (2021)
- Datganiad Ansawdd ar gyfer Canser (2022)
- Cynllun Gwella Canser i Gymru (2023-2026)
- Cynllun Iechyd Gwaed Cenedlaethol (2017 a 2024)
- Gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar werth
- Value based and prudent healthcare

## Heriau

- Darparu gwasanaethau cynaliadwy ac ymatebol
- Adnoddau cyfyngedig
- Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau a thechnolegau newydd
- Ymateb amserol i gynnydd yn y galw
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chefnogi iechyd y boblogaeth
- Gwella mynediad a lleihau amseroedd aros
- Recriwtio a chadw gweithlu clinigol a gwyddonol
- Cael gafael ar ddata cadarn a mewnwelediad trwy ddatrysiadau digidol



# Cipolwg ar ein Strategaeth Glinigol a Gwyddonol

## Gweledigaeth

**Bod ar flaen y gad ym maes gwyddoniaeth glinigol, gan ddarparu gofal rhagorol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**

## Nodau Strategol

- Cryfhau arweinyddiaeth glinigol a gwyddonol a chydweithio i ddatblygu'r agenda clinigol a gwyddonol
- Darparu gofal o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn gwella profiad a chanlyniadau
- Ysgogi datblygiadau clinigol a gwyddonol trwy arloesi, ymchwil a datblygu
- Addasu, datblygu a grymuso gweithlu clinigol a gwyddonol cynaliadwy, amrywiol, aml-broffesiynol

## Egwyddorion Creiddiol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwella synergedd a gweithio mewn partneriaeth | Lleihau amrywiad, anghydraddoldebau ac aneffeithlonrwydd, trwy ofal iechyd sy'n seiliedig ar werth | Sicrhau bod cleifion a rhoddwyr yn ganolog i bopeth a wnawn | Gwrando a dysgu o brofiad ac oddi wrth eraill | Cryfhau'r llais clinigol a gwyddonol ac arweinyddiaeth ar bob lefel |
| Optimeiddio cyfleoedd ar gyfer ymchwil, arloesi a gwella ansawdd | Grymuso ac arfogi'r gweithlu i gael y pethau sylfaenol yn gywir | Angen creu ystwythder mewn technoleg newydd, triniaethau, a ffyrdd o weithio | Darparu gofal digidol wedi'i ysgogi gan ddata | Buddsoddi mewn hyfforddi a datblygu'r gweithlu |

## Gwerthoedd

| | | |
|---|---|---|
| **Gofalgar** | **Parchus** | **Atebol** |

## Galluogwyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cydweithio** | **Seilwaith** | **Data a Mewnwelediad** | **Digidol a TG** |
| **Ystadau** | **Ymchwil** | **Cyllid** | **Y gweithlu** |

## Arweinyddiaeth a Chydweithio

**Nod strategol:** Cryfhau arweinyddiaeth glinigol a gwyddonol a chydweithio i ddatblygu'r agenda glinigol a gwyddonol.

| Ein Nodau Strategol: | |
|---|---|
| **Gwella ein rôl** fel darparwr arbenigol ar lefel leol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. | Optimeiddio cyfleoedd ar gyfer cydweithio i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy, effeithlon ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. |

| Er mwyn cyflawni ein hamcanion strategol, byddwn yn: | | |
|---|---|---|
| Cryfhau perthnasoedd gwaith gyda Thechnoleg Iechyd Cymru, **partneriaethau** a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gydweithio â byrddau iechyd, y byd academaidd, y trydydd sector a gwasanaethau cefnogol. | Cydweithio â phartneriaid ar draws y sector gwyddor bywyd ac ymgymryd â **gwaith sganio'r gorwel** i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau technolegol, clinigol a gwyddonol, a sicrhau parodrwydd ar gyfer gweithredu. | Ehangu **rhwydweithiau** a sicrhau cynrychiolaeth glinigol a gwyddonol gref mewn grwpiau strategol rhanbarthol, cenedlaethol, rhyngwladol ac Ewropeaidd. |
| Gwella'r synergedd a'r cydweithio rhwng adrannau, a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer **dysgu trawsadrannol.** | Mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio mwy ar systemau wrth ddylunio a darparu gwasanaethau. | Cydweithio â sefydliadau partner, sicrhau bod **blaenoriaethau strategol yn alinio**, a datblygu cynlluniau rhanbarthol cydgysylltiedig i addasu llwybrau gofal a gwasanaethau. |
| Gweithio gyda phartneriaid system i ddeall a mynd i'r afael **ag anghydraddoldebau** mynediad at ofal trydyddol ar draws y rhanbarth. | Hyrwyddo a chryfhau **arweinyddiaeth** glinigol a gwyddonol ar bob lefel i ddatblygu'r agenda clinigol a gwyddonol. | Gwella ein rôl fel cyfranogwr gweithredol, cydweithredwr, ac **arweinydd** mewn mentrau cenedlaethol a DU gyfan ar gyfer gwaed, canser, a thrawsblannu. |



# Ansawdd

**Nod strategol:** Darparu gofal o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn gwella profiad a chanlyniadau.

| Ein Nodau Strategol: | | |
|---|---|---|
| Drwy **drawsnewid gwasanaethau**, darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, teg a chynaliadwy i ddiwallu anghenion cleifion a rhoddwyr. | Optimeiddio canlyniadau a phrofiad cleifion trwy wreiddio egwyddorion **gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth** ym mhob gwasanaeth. | Darparu **gofal a ysgogir gan ddata, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac a arweinir yn glinigol**, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac wedi'i ategu gan ymchwil a gwybodaeth glinigol a gwyddonol arbenigol. |
| **Er mwyn cyflawni ein hamcanion strategol, byddwn yn:** | | |
| Meithrin **gallu a galluogrwydd** trwy ddatblygu'r seilwaith clinigol i baratoi ar gyfer darparu triniaethau newydd. | Gweithredu **ffyrdd newydd o weithio**, a sicrhau ymagwedd Tîm o Amgylch y Person , gan rymuso cleifion a rhoddwyr i wneud dewisiadau gofal, a ddarperir yn agos at eu cartrefi lle bo modd. | Gwella **ymgysylltiad** â chleifion a rhoddwyr, a chydweithio i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth. |
| Ymgorffori **diwylliant sy'n hanfodol i ddiogelwch**, gyda ffocws ar wrando, dysgu a gwella ansawdd er mwyn lleihau niwed a sicrhau'r profiad a'r canlyniadau gorau posibl. | Sicrhau bod pob gwasanaeth yn cydymffurfio'n gyson â **safonau gofal** proffesiynol, ac yn bodloni gofynion rheoliadol a statudol, canllawiau Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), ac argymhellion cenedlaethol a rhyngwladol. | Gweithio gyda Byrddau Iechyd i symleiddio'r broses o ddarparu **llwybrau clinigol** di-dor sy'n canolbwyntio ar y claf o'r pwynt atgyfeirio i ddiwedd y driniaeth. |
| Gweithio ar y cyd â phartneriaid darparu a chomisiynu i sicrhau parodrwydd ar gyfer gweithredu **meddygaeth fanwl**. | Sicrhau **seilwaith** cadarn i ddarparu a rheoli'n glinigol yr holl therapïau gan gynnwys therapïau newydd a therapïau sy'n dod i'r amlwg (e.e. therapïau uwch). | Sicrhau rheolaeth o ansawdd **therapïau canser** personol a **gwenwyndra triniaeth**. |
| Manteisio ar gyfleoedd i ddarparu **triniaethau a** therapïau newydd **ac arloesol.** | Cymhwyso **dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth** i ddatblygu a gwella mynediad, a darparu ac ansawdd gofal a gwasanaethau. | Gwella diogelwch ac olrheinedd ar draws y gadwyn gyflenwi ar gyfer gwaed a chynhyrchion trawsblannu. |
| Cymhwyso dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddatblygu gwasanaethau sy'n seiliedig ar yr ymddygiadau sy'n ysgogi rhoddwyr ac sy'n mynd i'r afael â rhwystrau i roi. | Gwella'r defnydd o ddata canlyniadau a phrofiad **(PROMS a PREMS)** ar gyfer cleifion a'r rhai sy'n derbyn cynhyrchion drwy gydol y llwybr gofal drwy system integredig ddigidol. | Datblygu gweithlu sydd wedi'i alluogi'n glinigol ac yn ddigidol, ac optimeiddio'r defnydd o **ddatrysiadau digidol**, sy'n cynnwys **deallusrwydd artiffisial** i wella canlyniadau. |
| Buddsoddi mewn **systemau digidol** i wella diogelwch cleifion a rhoddwyr. | Buddsoddi mewn **offer** o'r radd flaenaf a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau, ymchwil a thechnoleg newydd. | Ehangu ein rôl mewn addysg a hyrwyddiadau iechyd i alluogi cleifion, rhoddwyr a'r cyhoedd i wella eu hiechyd eu hunain a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. |

# Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

**Nod strategol:** Ysgogi datblygiadau clinigol a gwyddonol trwy arloesi, ymchwil a datblygu.

| Ein Nodau Strategol: | |
|---|---|
| Grymuso'r gweithlu clinigol a gwyddonol i ysgogi mentrau **trawsnewid a gwella ansawdd** trwy gymryd rhan mewn ymchwil, datblygu ac arloesi. | Bod yn ymwybodol o gyflymder y newid mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, a sicrhau **parodrwydd ar gyfer datblygiadau newydd.** |

| Er mwyn cyflawni ein hamcanion strategol, byddwn yn: | | |
|---|---|---|
| Ymgorffori **diwylliant sy'n cael ei yrru gan ymchwil**, ac yn creu cyfleoedd i gleifion, rhoddwyr, a staff gymryd rhan mewn ymchwil, datblygu ac arloesi. | Meithrin **gwybodaeth** ac arbenigedd clinigol a gwyddonol trwy **ddysgu a rennir** a gwelliant parhaus. | Mynd ati i geisio cymorth allanol a sicrhau **buddsoddiad** gan bartneriaid masnachol i yrru ymchwil ac arloesedd newydd yn eu blaen gan wneud y gorau o gyfleoedd eiddo deallusol. |
| Meithrin **gallu a galluogrwydd** i sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau, yr amser a'r adnoddau i ymgysylltu ag ymchwil, datblygu ac arloesi. | Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer **ymchwil ar y cyd a threialon clinigol**, a darparu piblinell drosiadol rhwng y labordy a'r meysydd clinigol. | Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i wella nifer ac amrywiaeth y cyfranogwyr sy'n cymryd rhan mewn **ymchwil a threialon clinigol**. |
| Datblygu **arweinwyr ymchwil** i weithio ochr yn ochr â hyrwyddwyr ymchwil i hyrwyddo'r agenda ymchwil ac i ddarparu cyngor, arbenigedd a mentoriaeth i'r gweithlu. | Cyflymu gweithrediad darganfyddiadau gwyddonol newydd i ymarfer clinigol, trwy **ymchwil drosi**. | Hyrwyddo rôl y **prif ymchwilydd** ac ehangu'r rôl i gynnwys aelodau eraill o'r tîm aml-broffesiynol. |



# Y gweithlu

**Nod strategol:** Addasu, datblygu a grymuso gweithlu clinigol a gwyddonol cynaliadwy, amrywiol, aml-broffesiynol.

| Ein Nodau Strategol: | | |
|---|---|---|
| Meithrin gallu a galluogrwydd i ddarparu **model aml-broffesiynol a arweinir yn glinigol** i sicrhau bod gan y gweithiwr proffesiynol cywir yr wybodaeth a'r sgiliau cywir i ddarparu'r gofal cywir yn yr amser a'r lle cywir. | **Rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i'r gweithlu clinigol a gwyddonol** ymateb i newidiadau mewn gofal a thriniaeth a harneisio'r defnydd o offer, systemau a thechnoleg newydd. | Creu gweithlu **sy'n deg yn broffesiynol, yn ymgysylltu'n llawn ac wedi'i rymuso**, sy'n gallu bodloni heriau darparu o fewn diwylliant cefnogol a seicolegol ddiogel. |
| **Er mwyn cyflawni ein hamcanion strategol, byddwn yn:** | | |
| Mabwysiadu model gweithlu aml-broffesiynol dan arweiniad clinigol sy'n canolbwyntio ar wneud y defnydd gorau o **sgiliau arbenigol**. | Datblygu **llwybrau gyrfa** ar gyfer pob proffesiwn clinigol a gwyddonol gyda ffocws ar dyfu ein gweithlu a datblygu llif mwy amrywiol o rolau arbenigol. | Gweithredu **llwybrau gyrfa uwch, datblygedig ac ar gyfer ymgynghorwyr** (Nyrsio, AHP a HCS) i alluogi staff i ddatblygu a symud ymlaen yn barhaus yn eu gyrfaoedd. |
| Gweithredu dull arloesol, darbodus a hyblyg o foderneiddio'r gweithlu trwy **gyflwyno rolau allweddol**. | Ymgorffori'r **fframwaith ymarfer uwch**, a gwneud y defnydd gorau o ymarfer uwch a rolau ymarferwyr cyswllt. | Ymgorffori diwylliant **seicolegol ddiogel** a chefnogol o fodel tosturiol, cynhwysol a chyfunol o arweinyddiaeth glinigol a gwyddonol. |
| Datblygu sgiliau a chapasiti ar draws y gweithlu trwy **addysg, hyfforddiant** a chyfleoedd datblygu o fewn diwylliant cefnogol. | Cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o **ddatblygiad proffesiynol parhaus** ar gyfer pob proffesiwn, a darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu ar y cyd. | Gweithio gyda phrifysgolion a gwneud y defnydd gorau o **Academi Oncoleg Felindre** a'r **Ganolfan Gydweithredol ar gyfer Dysgu ac Arloesi**. |
| Mabwysiadu dull amlochrog o wella **recriwtio, cadw, a chynllunio ar gyfer olyniaeth** ar draws yr holl broffesiynau clinigol a gwyddonol. | Gweithio gyda Byrddau Iechyd, AaGIC a phartneriaid academaidd i sicrhau **gweithlu** clinigol a gwyddonol aml-broffesiynol **cynaliadwy**. | Gwella mynediad at **raglenni datblygu arweinyddiaeth**, dysgu a datblygiad proffesiynol parhaus. |



## Sut byddwn yn cyflawni ein strategaeth Glinigol a Gwyddonol?

**Mae Bwrdd Strategol Clinigol a Gwyddonol wedi'i sefydlu i ddarparu goruchwyliaeth strategol mewn perthynas â gweithredu'r strategaeth. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ein Hymddiriedolaeth a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu yn cael eu datblygu'n glinigol ac yn wyddonol. Bydd y strategaeth Glinigol a Gwyddonol yn grymuso'r gweithlu clinigol a gwyddonol o dimau gweithredol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, i ddatblygu'r agenda ac ymdrechu am ragoriaeth.**

Yn y dyfodol, bydd pob un o'r gwasanaethau'n cyflawni eu model clinigol drwy fframwaith cynllunio'r Rhaglenni Dyfodol Felindre a Dyfodol Gwaed Cymru. Mae'r Strategaeth Glinigol a Gwyddonol yn cefnogi'r Rhaglenni hyn, ac yn cefnogi ein timau i gyflawni gofal diogel, effeithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n canolbwyntio ar y person.

Bydd y strategaeth Glinigol a Gwyddonol yn cyd-fynd â strategaethau galluogi'r Ymddiriedolaeth gyfan ar gyfer y meysydd Digidol, Ymchwil, Nyrsio a Phobl.

Bydd y Bwrdd Clinigol a Gwyddonol yn cydweithio gyda timau arweinyddiaeth adrannol a chorfforaethol yr Ymddiriedolaeth, i sicrhau bod y strategaeth yn sail i bob cynllun sefydliadol, gan gynnwys ein Cynllun Tymor Canolig Integredig blynyddol.

Bydd Cynllun Cyflawni Strategaeth Glinigol a Gwyddonol yn cefnogi gwaith y Bwrdd, a bydd yn cael ei arwain gan y Rheolwr Clinigol a Gwyddonol, a fydd yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ar draws yr Ymddiriedolaeth. Bydd y Bwrdd Strategol Clinigol a Gwyddonol yn goruchwylio blaenoriaethu a'r gwaith o gyflawni'r cynllun hwn, yn monitro cynnydd, ac yn darparu adroddiadau cyflawn i'r Bwrdd Rheoli Gweithredol ac i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.



Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust

Unit 2, Charnwood Court,
Parc Nantgarw, Cardiff, CF15 7QZ

**029 2019 6161 | velindre.nhs.wales**